**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/MD/0176/17

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid,
Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd,
Caerdydd.
CF99 1NA

17 Mawrth 2017

Annwyl Simon,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Mawrth ynghylch Bil yr Undebau Llafur (Cymru).

Roedd nifer o heriau yn ein hwynebu wrth lunio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil yr Undebau Llafur (Cymru). Cadw'r sefyllfa bresennol cyn belled ag y mae hynny'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a chymhwysedd y Cynulliad, dyna yw'n bwriad yn y Bil hwn. Gellid dadlau, yn hyn o beth, mai niwtral yw effaith ariannol y Bil yn gyffredinol, sy'n mynd â ni yn ôl i'r sefyllfa a oedd yn bodoli cyn Deddf yr Undebau Llafur 2016 ac yn cadw'r sefyllfa fel y mae hi.

Hefyd, roedd ansicrwydd yn ein hwynebu o ran cyflwyno amseriad, o gofio nad oeddem yn sicr, pan gyflwynwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, o amseriad cychwyn Deddf y DU. Yng ngoleuni'r anawsterau hyn, teimlais mai'r ffordd orau o gynorthwyo'r broses graffu oedd dangos maint y problemau drwy brofi y gellir dosrannu Asesiad Effaith Rheoleiddiol y DU yng Nghymru. Felly roeddem wedi cynnwys ffigwr , er enghraifft, ar gyfer y gost ychwanegol o weithredu streic a gynhyrchir trwy anghymwyso'r trothwy 40%, er gwaethaf y ffaith ein bod wastad wedi amau na fydd y gost honno'n digwydd yn ymarferol mewn gwirionedd.

Mae'r ffigwr a geir o ganlyniad, sef £85,000 yn ffigwr sydd wedi ei ddosrannu o'r ffigwr a geir yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y DU, sydd yn seiliedig ar ragdybiaeth a wnaed gan Lywodraeth y DU, o'r lleihad a fydd yn y dyddiau streicio a gollir o ganlyniad i'w deddfwriaeth. Rydym yn amau sail y rhagdybiaeth hon ac yn credu y byddai anghymhwyso'r ddarpariaeth yn arwain at golli llai o ddyddiau yng Nghymru oherwydd bydd ein model o bartneriaeth gymdeithasol yn cael ei gynnal. Dyma honiad a gefnogir gan dystiolaeth y cyflogwyr a'r undebau llafur i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O gofio nad yw gwir effaith Deddf y DU yn hysbys eto, rhaid aros i weld beth sy'n digwydd yn ymarferol tan y gellir setlo'r safbwyntiau gwahanol ar effaith y dulliau gwahanol a geir yng Nghymru a Lloegr, mewn termau ariannol.

Wedi dweud hynny, credaf fod gan Aelodau'r Cynulliad sail ar gyfer craffu ar y ddeddfwriaeth ddrafft sydd o fewn yr ystod rhwng £85,000 a dim. Roedd cychwyn y trothwy cymorth cyffredinol o 40% ar 1 Mawrth yn diffinio gwasanaethau cyhoeddus pwysig yn yr un ffordd ac a ragwelwyd gennym, ac nid yw wedi cael effaith ar unrhyw beth nad oeddem wedi ei ragweld. O ganlyniad, nid yw'n fwriad gennym i gyflwyno dadansoddiad pellach o'r costau sy'n gysylltiedig â'r anghymhwyso.

Roedd costau eraill o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymwneud ag ymgyfarwyddo. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r llythyr a gefais gan Ben Gummer AS; ynddo sonnir am fwriad Llywodraeth y DU i beidio â chynnwys gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y rheoliadau sy'n ymwneud ag amser cyfleuster a didynnu taliadau tanysgrifio i undebau drwy'r gyflogres. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau wedi ei gychwyn ond, hyd yn hyn nid ydym wedi gweld y rheoliadau eu hunain. Rwyf felly yn cadw'n dawel ar y mater o sut y gallai'r rheoliadau hyn effeithio ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn ymarferol.

Rwy'n disgwyl y bydd arbed awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru rhag gorfod ymgyfarwyddo â darpariaethau Deddf y DU yn deillio o'r ffaith nad ydynt yn cael eu cymhwyso i Gymru yn hytrach na'n uniongyrchol o'n deddfwriaeth ni . Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi syniad da i'r Cynulliad Cenedlaethol o oblygiadau ein Bil ni, ac nid wyf yn rhagweld bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn mynd i newid yn sylweddol. Er hynny, pe byddai'r rheoliadau a gyflwynir gan Weinidogion y DU yn cymhlethu'r amseru ymhellach, byddaf yn ystyried rhoi mwy o fanylion am y goblygiadau ariannol drwy adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Gobeithio bod yr wybodaeth yma o gymorth i chi.

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government